# Ein Llais Ni
# Prosiect Llafaredd GwE



Cyflwynwyd cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru yn fuan yn 2021 am gyllid i'n cefnogi i gynnal prosiect ymchwil gweithredol ar gyfer codi safonau llafaredd Cymraeg.

## Nod y prosiect yw:

- Gwella agweddau a pharodrwydd dysgwyr i gyfathrebu trwy'r Gymraeg a chyfrannu'n hyderus at eu cymunedau dwyieithog y tu fewn a thu allan i furiau eu hysgolion
- Cyflwyno rhaglen o strategaethau 'Ein Llais Ni' sy'n gyfuniad o'r traddodiadol, y digidol a'r byw; a'u datblygu ymhellach sy'n berthnasol i gyd-destun Cymru a Chymreictod
- Meithrin a datblygu dysgwyr tuag at y Pedwar Diben sy'n falch o'u Cymreictod ac yn gyfathrebwyr dwyieithog hyderus.

## Blaenoriaethau:

- Mapio rhaglen sydd yn cynnwys elfennau traddodiadol, digidol a byw mewn cyfuniad ag adnoddau Voice 21/Trysorfa Llais 21 yn erbyn ymchwil gyfredol ar ddatblygu dwyieithrwydd mewn ysgolion, gan gynnwys addasiadau i'r rhaglen sy'n ei osod mewn cyd-destun lleol a Chymreig
- Sefydlu Bwrdd Llywio i oruchwylio a chyfrannu tuag at y prosiect
- Penodi Swyddog Prosiect i gydlynu gwaith ochr yn ochr â Swyddog Ymchwil o Adran Addysg Prifysgol Bangor (o dan oruchwyliaeth Athro Enlli Thomas)
- Cynllunio a chyflwyno strategaethau ac addysgeg effeithiol i'w rhannu efo'r ysgolion
- Gweithio gydag amrediad o ysgolion er mwyn rhoi'r stategaethau ar waith a derbyn adborth ar yr effaith ar gynnydd a mwynhâd y dysgwyr
- Perthnasu'r rhaglen i gyd-destun Cymreig, cyfoes ac amrywiol gan gynnig awgrymiadau, syniadau ymarferol yn ogystal ag arferion llwyddiannus sy'n seiliedig ar egwyddorion ag argymhellion gwreiddiol Mercer a Mannion
- Ymestyn y prosiect i rannau eraill o Gymru er mwyn ei gyfoethogi a'i werthuso.
- Gwerthuso effaith y strategaethau a'r addasiadau ar hyder a chyrhaeddiad y dysgwyr
- Datblygu a chynhyrchu adroddiad digidol mewn ymateb ac yn ddilynant i adroddiad Mercer a Mannion – 'Llafaredd ar draws y Cwricwlwm i Gymru'
- Cynnal Cynhadledd Genedlaethol i lansio'r gwaith ymchwil, yr adnoddau cefnogol, ac i godi ymwybyddiaeth o ganfyddiadau'r prosiect 'Ein Llais Ni'.

## Deilliannau:

- Strategaeth eglur ar gyfer addysgu llafaredd sy'n bwrpasol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, wedi'u cynllunio'n dda a'i chefnogi gan becyn cymorth ar gyfer dysgu proffesiynol ar gael i ysgolion.
- Bydd gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o sut i ddefnyddio ac addasu iaith yn effeithiol mewn sefyllfaoedd amrywiol ac i gynulleidfaoedd gwahanol yn ogystal a manteision dwyieithrwydd.
- Bydd gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o'r amrywiol ffyrdd o ddefnyddio ystod o apiau a rhaglenni digidol i gyfoethogi addysgu llafaredd ac yn cynllunio profiadau ysgogol, byw sy'n berthnasol i fywyd go iawn ac sy'n tanio brwdfrydedd i gyfathrebu
- Effaith gadarnhaol ar sgiliau llafaredd dysgwyr a'u parodrwydd a'u brwdfrydedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol ac yn eu cymuned
- Cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg i fynegi eu hunain a chyfathrebu eu meddyliau a'u syniadau yn yr ysgol ac yn eu cymuned.
- Lleihad yn yr amrywiad ansawdd addysgu llafaredd o fewn ysgol a rhwng ysgolion
- Bydd yn cyfrannu yn effeithiol tuag at wella llesiant y dysgwyr wrth iddynt fynegi eu hunain a chyrchu pob rhan o'r cwricwlwm a bywyd ysgol
- Creu canolfannau arbenigedd a datblygu rhwydweithiau ar gyfer rhannu strategaethau addysgu a dysgu llafaredd a fydd yn ganolbwynt ar gyfer gwaith lledaenu yn y dyfodol.
- Llwyfan hylaw i'r adnoddau a'r deunyddiau cefnogol – creu pecyn hyfforddiant digidol i gyd-fynd â'r adnoddau i'w rannu ar wefan Cefnogaeth GwE – Hwb yn Genedlaethol

# Ein Llais Ni



# Prosiect Llafaredd GwE

## Effaith a budd y prosiect ar y rhan-ddeiliaid:

- **Dysgwyr** - bydd eu hyder a medrau siarad, gwrando a chyfathrebu yn datblygu a chryfhau; bydd eu medrau yn trosglwyddo yn llwyddiannus i feysydd a phynciau eraill ar draws y cwricwlwm ac yn eu harfogi i gyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg tu hwnt i furiau'r ysgol.
- **Athrawon a chymorthyddion** – byddant yn datblygu hinsawdd ddysgu sy'n rhoi lle blaenllaw i ddatblygu medrau llafar ar bob cyfle posib er mwyn meithrin cyfathrebwyr naturiol yn y Gymraeg; bydd ganddynt ddealltwriaeth glir o'r amrywiol elfennau sydd ynghlwm âg addysgu llafaredd yn effeithiol ac yn cynllunio yn fwriadus ar gyfer hynny.
- **Arweinwyr ysgolion** – bydd y Gymraeg yn rhan o weledigaeth yr ysgol gan weithredu ethos ac awyrgylch Gymraeg a Chymreig drwy blethu'r Fframwaith Siarter Iaith gyda Phedwar Diben y cwricwlwm newydd. Bydd ymwybyddiaeth o'r darlun mawr a phwysigrwydd datblygu'r Gymraeg ar gyfer creu dinasyddion dwyieithog sy'n hyderus i ddefnyddio Cymraeg ym mhob rhan o fywyd bob dydd (Strategaeth Cymraeg 2050 Ll.C) ac o'r cyfrifoldeb strategol sydd gan yr Awdurdodau Addysg drwy'r CSGA.
- **Rhieni** – byddant yn dyfnhau dealltwriaeth o fanteision bod yn ddwyieithog ac yn gefnogol i'r dulliau addysgu Cymraeg; byddant yn dangos diddordeb ym medrau llafar Cymraeg eu plant ac yn ymroi i gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg eu hunain.
- **Awdurdodau lleol** – byddant yn bartneriaid allweddol yn y broses o gefnogi ysgolion drwy'r CSGA ac yn gweld budd o'r cydweithio er mwyn cefnogi'r targedau. Byddant yn gweld y prosiect yn gyfle i wreiddio ac ymestyn y Gymraeg i feysydd eraill y cwricwlwm ac i ddatblygu dulliau newydd a chyfoes wrth gynllunio tuag at y Cwricwlwm i Gymru.
- **Consortia Addysg** – byddant yn ymwybodol a chlir o'r prosiect a'r dull gweithredu ac yn derbyn diweddariadau cyson o'r datblygiadau gan gyfrannu tuag at ei ddatblygu a'i hyrwyddo a chyfathrebu yn genedlaethol ac yn lleol drwy Hwb.

## Amserlen:

### Gwedd 1
(Ebrill 2021 - Awst 2021)

- penodi 'Swyddog Prosiect'
- dadansoddi argymhellion adroddiad Mercer
- parhau i beilota 'y drysorfa/ Voice 21' efo rhai clwstyrau
- canolbwyntio ar yr elfen pontio CA2/CA3 ac adeiladu ar ganfyddiadau ac arfer dda Cynllun "Oracy@GwE" (2018-2020)
- hefyd cychwyn peilota yn y Cyfnod Sylfaen
- mapio a chynllunio efo'r Brifysgol a'r consortia eraill

### Gwedd 2
(Medi 2021 - Medi 2022

- penodi Swyddog Ymchwil i'r tim
- paratoi gwybodaeth gryno i'r clystyrau a gwahodd ceisiadau, targedu amrywiaeth o glystyrau ar draws y rhanbarth
- cynllunio/paratoi hyfforddiant addas ar gyfer y clystyrau newydd
- parhau i wirio ac addasu'r adnoddau/ ymyraethau
- cyfathrebu da rhwng yr ysgolion peilot. Sefydlu mecanwaith ar gyfer cydweithredu ysgol-i-ysgol yn ystod y rhaglen
- hwyluso rhannu negeseuon - cyfarfodydd rhwydawith llythrennedd
- gwerthuso effaith y rhaglen ar wybodaeth athrawon a hyder a chyrhaeddiad y disgyblion yn yr ysgolion prosiect
- creu pecyn hyfforddiant i gyd fynd efo'r adnoddau i'w rhannu'n genedlaethol drwy Hwb
- Cynhyrchu adroddiad yn ddilyniant i Adroddiad Mercer a Mannion.
- Cynnal Cynhadledd Genedlaethol


### Gwedd 3
(Medi 2022 ymlaen)

- Yn dilyn gwerthuso'r ymateb yn Gwedd 2 ymestyn allan i glystyrau ychwanegol yn y gogledd ac yn benodol cynnwys **trawstoriad cyfrwng Saesneg**
- Cyfle i ymestyn i glystyrau ychwanegol yn y consortia eraill ar draws Cymru.
- Cyd weithio efo'r ysgolion a grŵp bach o athrawon Cohort 1 fel Llysgenhadon i hyrwyddo'r cynllun efo'r Cohort newydd.
- **Pwyslais ar hybu dwyieithrwydd drwy Lafaredd**
- hyrwyddo datblygiad y medrau o fewn y Fframwaith Llafaredd Cenedlaethol a Chamau Cynnydd Medrau Siarad a Gwrando yn arbennig.

# Ein Llais Ni
# Prosiect Llafaredd GwE

Atodiad 1

**Llywodraethiant:**




Cyfranddeiliaid lefel uchel sy'n cyfrannu ac yn cael deilliant o'r prosiect.
Cynnig cefnogaeth arweiniol i'r Gwaith ac yn cytuno unrhyw newid i'r cynllun

Cyfrifoldeb am weithredu'r cynllun o ddydd i ddydd a chyfrannu at y deilliannau

Cyfrifoldeb dros sicrhau fod y prosiect yn cael ei gwblhau yn unol a'r cynllun